# Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y **4ydd o Ragfyr** yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Enid Egginton, John Jones (Garndolbenmaen), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Gwilym Evans (Prenteg) Iddon Edwards (Penmorfa) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa) Huw Pritchard, Raymond Jones (Pentrefelin), Clifford Williams (Garndolbenmaen) June Jones, Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Neb |
| 4. | Datgan Buddiant: | Neb |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion : | RP yn cynnig a JJ yn eilio. |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion: | **Golan -** Gordyfiant ar allt Cefn Coch Isaf wedi cael ei dorri.<br><br>**Llwybr 105 –** Contractwr wedi cychwyn ar y gwaith ond wedi gorfod dod i stop oherwydd y tywydd gwlyb. Bydd y gwaith yn parhau pan fydd hi wedi sychu.<br><br>**Arwyddion Llifogydd Prenteg:** Cafwyd ymateb gan Briffyrdd Dwyfor, maent mewn cyswllt gyda'r cwmni sy'n darparu'r arwyddion electroneg er mwyn adnabod y costau i'w uwchraddio ac atgyweirio, ac yn trafod os yw'n gost effeithiol i'w gadw. Am y cyfamser byddent yn parhau i osod arwyddion "ffordd ar gau" pan fydd angen ymateb i achosion o lifogydd ar y ffordd yma.<br><br>**Dŵr yn gorlifo ym Mhentrefelin:** Mae Adran Priffyrdd ac Ymgynghoriaeth Gwynedd yn edrych mewn i'r sefyllfa. Yn hytrach nag edrych ar welliannau unigol ar raddfa fach, mae YGC yn edrych ar yr ardal leol yn ei gyfanrwydd mewn ymdrech i adnabod sut i gyflwyno mesurau effeithiol sy'n annhebyg o symud y broblem ymhellach draw. Mae hynny o waith all gael ei gyflwyno gan Priffyrdd, sef agor a chlirio'r ffosydd ar ymylon ffyrdd wedi cael ei gwblhau. Bydd YGC yn trafod gwaith pellach gyda thirfeddianwyr perthnasol mewn perthynas â gwaith angenrheidiol ar rediad cyrsiau dŵr drwy diroedd preifat. |
| 7. | Mynwentydd: | **Ffioedd Claddu -** Derbyniwyd y ffioedd claddu newydd. EE yn cynnig ac IE yn eilio. Pawb yn gytûn.<br><br>**Cais i osod carreg fedd:** Dim gwrthwynebiad. Pawb yn gytûn.<br><br>**Mynwent Golan –** Y biniau newydd (gwastraff cyffredinol a phlastig) i weld yn gweithio yn dda hyd yma.<br><br>**Mynwent Prenteg –** Y bin yn llawn. Clerc i drefnu i gael ei wagio. |

| | | |
|---|---|---|
| 8. | Llwybrau Cyhoeddus: | Dim i'w adrodd. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi: | **Garndolbenmaen -** Coed wedi disgyn yn y caeau heibio Tan Ffolt yn dilyn stormydd diweddar ac yn beryg. Cyngor Gwynedd wedi bod allan i archwilio ac am gysylltu gyda'r tir feddiannwr.<br><br>**Bryncir -** Cynhaliwyd cyfarfod yn y Mart ar 4ydd Rhagfyr rhwng y perchennog, cynghorwyr cymuned a swyddogion Ymgynghoriaeth Gwynedd i drafod symud yr arosfa bws. Mae swyddogion YGC yn mynd i anfon cynlluniau i'r Mart i'w hadolygu. Nid oes penderfyniad terfynol ac mae'r trafodaethau yn parhau.<br><br>**Prenteg -** Cyngor Gwynedd wedi defnyddio enw Pont Croesor yn ddiweddar wrth adrodd am ffordd ar gau yn hytrach na'r enw cywir – Pont y Traeth. Clerc i adrodd am hyn.<br><br>Draen ochr Prenteg i Dyrpeg yn parhau i flocio bob munud. Clerc i adrodd.<br><br>Arwyddion llifogydd yn cael eu gosod rhy hwyr.<br><br>Adroddwyd fod y Cyngor yn rhy araf deg yn cau ffyrdd pan mae llifogydd.<br><br>Adroddwyd bod diffyg cyfathrebu rhwng Adrannau'r Cyngor a'r cyfryngau e.e. Radio Cymru yn parhau i hysbysu bod ffyrdd ar gau pan oeddent mewn gwirionedd wedi ail agor.<br><br>Clerc i raeadru'r pwyntiau uchod i Gyngor Gwynedd.<br><br>Soniodd GE ei fod wedi derbyn galwad gan Swyddog o Adran Eiddo, Cyngor Gwynedd parthed y garej perygl yn y maes parcio. Mae tap wedi ei osod o amgylch y garej am y tro i hysbysu'r cyhoedd am y peryg.<br><br>**Golan -** Mae cyflwr ffordd Cwmystradllyn yn ofnadwy gyda mwd a dŵr yn cronni wrth Gefn Coch a hefyd ar y ddwy ochr ar bont yr Afon Ddu.<br><br>Grid gwartheg cyntaf o Gwmystradllyn i Brenteg - mae'r canllaw yn beryg a hefyd yr un rhwng Tŷ Mawr a Hendre Fawr. Clerc i adrodd am y materion yma.<br><br>**Pentrefelin –** Draen ar Lôn Tabor wedi blocio ac angen ei glirio. Clerc i adrodd.<br><br>**Penmorfa –** Dim i'w adrodd |
| 10. | Bin Halen | JT yn ymuno.<br>Penderfynwyd darganfod beth yw safbwynt Cyngor Gwynedd o ran llenwi biniau halen. Os yw'r biniau yn cael eu llenwi am ddim, yna |

| | | |
|---|---|---|
| | | archebu un bin halen newydd i'w osod pen uchaf i Gwrt Isaf, Cwm Pennant ac ail leoli'r bin presennol sydd ger Isallt yn uwch i fyny. JJ yn cynnig ac EE (Garn) yn eilio. |
| 11. | Canlyniad Archwiliad 2024/25 | Derbyniwyd adroddiad yr Archwiliad Allanol. Diolchwyd i'r clerc am ei gwaith. Adroddiad i'w roi ar y wefan. |
| 12. | Is-bwyllgor Cyllid | Is-bwyllgor wedi'i drefnu ar yr 11eg o Ragfyr am 7:30 yr hwyr yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan.<br><br>** Oherwydd nad oedd digon o aelodau ar gael, is-bwyllgor wedi ei ail drefnu ac yn cael ei gynnal ar yr 16eg o Ragfyr am 7:30yh yn y Ganolfan yng Ngolan. |
| 13. | Adroddiad Adran 6 | Derbyniwyd yr adroddiad a diolchwyd i'r clerc. Adroddiad i'w gynnwys ar y wefan. |
| 14. | Gohebiaeth | Dim |
| 15. | Gohebiaeth Ychwanegol | a. Parc Cenedlaethol Eryri - Diweddariad ar broses adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri (Rhannwyd)<br>b. Unllais Cymru – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Ionawr 2026 (Rhannwyd)<br>c. Kathryn Keir – Gwaith Ymchwil beddi Mynwent Cwm Pennant (gwaith wedi'i gwblhau ac anfoneb angen ei godi) |
| 16. | Cynllunio | Rhestrau: 03/11, 10/11, 17/11 a 24/11<br><br>**NP2/16/453A -** Dymchwel strwythurau ochr a chefn unllawr presennol a chodi estyniadau ochr a chefn unllawr deulawr.Tyn Rallt, Penmorfa. LL49 9SD. Dim gwrthwynebiad. |
| 17. | Materion Ariannol | <br>**<u>Ceisiadau am arian:</u>** Neb (Clerc wedi cysylltu hefo sefydliadau lleol i hysbysu fod y ffenestr ymgeisio yn agored hyd at 31.12.25)<br><br>**<u>Monitro'r Gyllideb</u>**: Dim Gorwariant<br><br>**<u>Biliau i'w talu:</u>**<br><br>Cyflog Clerc £ 342.89<br>Ffôn £ 15.00<br>Cyfrifiadur £ 20.00<br>HMRC £ 85.72<br>Veolia £ 2.52 (Hydref)<br>£ 27.28 (Tachwedd - anfoneb Derfynol)<br>Cyngor Gwynedd £ 134.00 (1 Tachwedd – 31 Mawrth 26)<br>(Gwastraff Masnachol)<br><br>Ychwanegwyd:<br><br>Cyngor Gwynedd £176.68 (Arwydd Pont y Traeth)<br>Yr Wylan £ 40.00 (Hysbysebu)<br><br>**** Cymeradwywyd i dalu'r uchod.**<br><br>**<u>Derbyniadau</u> –** Dim |

| | | |
|---|---|---|
| | | **<u>Balansau Cyfrifon:</u>**<br>Cadw – £42,837.00<br>Cyfredol- £548.88 |
| 18. | Dewis Gohebiaeth i'r Wasg/Wefan | Tair Sedd Wag<br>Rhoddion Ariannol<br>Ysbwriel Mynwent<br>Cyfarfod Arosfa Bws Bryncir |